


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyhoeddwyd: Ebrill 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 207A2013

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol ar £5.5 biliwn o arian a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a grantiau penodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Justine Morgan o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Nid yw'r Cyngor yn datblygu ei raglen wella'n ddigon cyflym ac nid yw ei adroddiadau i'r cyhoedd am ei berfformiad mor glir ag y gallent fod 8

Mae gwasanaethau addysg y Cyngor yn anfoddhaol ac, er bod y perfformiad ar draws ystod gwasanaethau'r Cyngor yn amrywio, ychydig o dystiolaeth sydd fod y pwyntiau dysgu gan wasanaethau sy'n perfformio'n well yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol yn y gwasanaethau y nodwyd bod angen gwella arnynt 8

Mae diffyg hunanwerthuso trwyadl yn llesteirio gwella gwasanaethau sy'n golygu na all y Cyngor roi darlun cydlynol i'w ddinasyddion o'i berfformiad 16

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol i gynllunio ar gyfer gwella ond ni lwyddodd i gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus 21

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 25

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Ferthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 26

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 27

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil 30

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol Cymru, yn ogystal â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad yw'r Cyngor yn datblygu ei raglen wella'n ddigon cyflym ac nad yw ei adroddiadau i'r cyhoedd ynghylch ei berfformiad mor glir ag y gallent fod.

3 Mae gwasanaethau addysg y Cyngor yn anfoddhaol ac, er bod y perfformiad ar draws ystod gwasanaethau'r Cyngor yn amrywio, ychydig o dystiolaeth sydd fod y pwyntiau dysgu gan wasanaethau sy'n perfformio'n well yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol yn y gwasanaethau y nodwyd bod angen gwella arnynt:

- Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn bwriadu tynnu cyfrifoldeb y Cyngor dros addysg oddi arno oherwydd bod gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol ac oherwydd bod y rhagolygon ar gyfer gwella'n anfoddhaol.
- Mae'r Cyngor yn cydweithredu'n dda gyda chynghorau a phartneriaid eraill wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion a phlant, ac mae'n llwyddiannus o ran cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed i fyw gartref.
- Mae'r Cyngor wedi gwella canran y gwastraff a ailgylchir ac a anfonir i safleoedd tirlenwi ond bydd yn anodd iddo gyflawni targedau cenedlaethol a gall wynebu cosbau ariannol sylweddol oni wnaiff hynny.
- Mae'r cynnydd o ran adfywio canol trefi'r Cyngor wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac nid yw'r canlyniadau a fwriadwyd wedi'u gwireddu eto.
- Mae mwy o bobl yn ymwneud â phrosiectau diweithdra ac yn meithrin y sgiliau ac yn ennill y cymwysterau angenrheidiol ond ychydig iawn o ostyngiad a welwyd o ran lefel diweithdra ac mae'n dal yn uwch o dipyn na'r cyfartaledd.
- Dylai'r prosesau sydd ar waith i weinyddu budd-dal tai sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon i'r bobl gywir, a bod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn ymatebol. Fodd bynnag, mae sicrhau cywirdeb yn parhau i fod yn her.

4 Gwelsom hefyd fod diffyg hunanwerthuso trwyadl yn llesteirio gwella gwasanaethau sy'n golygu na all y Cyngor roi darlun cydlynol i'w ddinasyddion o'i berfformiad:

- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i adrodd ynghylch gwelliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn fanylach.
- Nid yw *Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2011/12* (yr Adroddiad Perfformiad) ac *Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2011/12 Crynodeb i'r Cyhoedd* (y Crynodeb i'r Cyhoedd) yn asesu perfformiad mewn ffordd deg a chytbwys. Nid yw'r pwyntiau pwysig, yn enwedig yn y meysydd hynny lle mae'r perfformiad yn wael, yn cael eu cyfleu'n glir bob tro o dan bob amcan gwella.
- Nid yw trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor yn ddigon trwyadl i ategu gwelliannau parhaus nac i roi darlun cydlynol i'r dinasyddion o'i berfformiad wrth gyflawni ei flaenoriaethau gwella corfforaethol.
- Mae fframwaith monitro perfformiad clir ar waith a chyflwynir data am berfformiad yn helaeth mewn adroddiadau, ond mae gwendidau o ran ansawdd a gwerthuso'r data'n golygu na all y Cyngor herio perfformiad yn gadarn na phenderfynu beth y mae angen ei wneud yn wahanol er mwyn gwella.
- Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau o ran adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.
- Mae Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) wedi bod yn feirniadol o'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gweinyddu ei *Gynllun Iaith Gymraeg*, ac mae'r Cyngor yn ymateb i argymhellion y Comisiynydd.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol i gynllunio ar gyfer gwella ond nad yw wedi cydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol i gynllunio ar gyfer gwella ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu dulliau mesur perfformiad sy'n diffinio llwyddiant yn glir, ac i fireinio trefniadau ar gyfer monitro ac ar gyfer sbarduno gwelliant;
- mae cryn waith i'w wneud i gysoni'r Cynllun Ariannol Tymor Canol, y strategaeth rheoli asedau a strategaeth y gweithlu er mwyn iddynt fod yn sail ac yn sylfaen gadarn i'r Cyngor wireddu ei flaenoriaethau; ac
- mae'r Cyngor yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ddatblygu dull mwy strategol a chydlynol o ymgysylltu â'r cyhoedd.

# Argymhellion

6 Rydym wedi codi nifer o gynigion yn y gorffennol ynghylch gwella trefniadau cynllunio corfforaethol y Cyngor, yn benodol y rheini sy'n ymwneud â rheoli perfformiad a chynllunio ariannol tymor canol. Er bod y Cyngor wedi mynd i'r afael yn rhannol â rhai o'r cynigion hyn, erys gwendidau y mae angen mynd i'r afael â hwy ar fwy o frys. Mae gan y Cyngor hanes o ddatblygu ei drefniadau rheoli perfformiad a newid ei brosesau. Mae angen symud oddi wrth hyn a chanolbwyntio ar greu diwylliant lle mae'r hunanwerthuso'n fwy agored ac adeiladol a lle bydd rheolwyr ac arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad y gallant ymddiried ynddi i reoli a herio perfformiad yn effeithiol.

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A1** | Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus, dylai'r Cyngor:<br>• ddatblygu dulliau mesur perfformiad sy'n diffinio llwyddiant o ran cyflawni ei flaenoriaethau gwella corfforaethol yn gliriach;<br>• datblygu ei drefniadau i sicrhau proses hunanwerthuso fwy trwyadl o berfformiad gwasanaethau, a chynnydd wrth wireddu'r canlyniadau corfforaethol sy'n flaenoriaeth iddo; a<br>• sicrhau bod ei ddinasyddion yn cael darlun teg, cytbwys a chydlynol o berfformiad y Cyngor. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Nid yw'r Cyngor yn datblygu ei raglen wella'n ddigon cyflym ac nid yw ei adroddiadau i'r cyhoedd am ei berfformiad mor glir ag y gallent fod

### Mae gwasanaethau addysg y Cyngor yn anfoddhaol ac, er bod y perfformiad ar draws ystod y gwasanaethau'r Cyngor yn amrywio, ychydig o dystiolaeth sydd fod y pwyntiau dysgu gan wasanaethau sy'n perfformio'n well yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol yn y gwasanaethau y nodwyd bod angen gwella arnynt

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn bwriadu tynnu cyfrifoldeb y Cyngor dros addysg oddi arno oherwydd bod gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol ac oherwydd bod y rhagolygon ar gyfer gwella'n anfoddhaol

11 Arolygwyd gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc gan Estyn ym mis Tachwedd 2112. Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad arolygu ym mis Chwefror 2013 ac mae hwn ar gael ar ei wefan www.estyn.gov.uk. Tynnwyd yr isod o'r adroddiad arolygu llawn.

12 Mae gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol oherwydd:

- bod safonau ar gyfer dysgwyr yn anfoddhaol ym mhob cyfnod allweddol;
- bod cyfraddau gwaharddiadau yn rhy uchel, mae gormod o bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn annerbyniol o isel;
- bod cymorth ar gyfer gwella ysgolion a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn anfoddhaol;
- nid yw effaith gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cael ei harfarnu i wirio bod y ddarpariaeth yn mynd i'r afael ag anghenion; a
- bod methiant arweinwyr i roi systemau ar waith i nodi cryfderau a gwendidau mewn ysgolion wedi arwain at ddiffyg her a gwelliant annigonol mewn safonau.

Fodd bynnag:

- mae'r Cyngor wedi gweithio'n dda i wella presenoldeb yn ei ysgolion uwchradd dros y blynyddoedd diwethaf;
- mae cyfranogiad yn narpariaeth ieuenctid y Cyngor, a'r deilliannau o hynny, ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol;

- mae'r ddarpariaeth yn dda ar gyfer pobl ifanc sy'n cael addysg heblaw addysg yn yr ysgol, ar gyfer troseddwyr ifanc ac ar gyfer plant sy'n derbyn gofal;
- mae plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai o grwpiau sy'n agored i niwed, yn ymgymryd yn dda â datblygu llais y dysgwr o fewn yr awdurdod;
- mae'r Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau statudol yn dda mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol; ac
- mae ad-drefnu dysgu ôl-16 wedi'i reoli'n dda.

13 Mae rhagolygon gwella'r Cyngor yn anfoddhaol oherwydd:

- nad yw uwch swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor wedi herio tanberfformio a deilliannau gwael ar gyfer dysgwyr;
- nad yw swyddogion wedi darparu adroddiadau i aelodau sy'n dadansoddi data perfformiad yn ddigon da i nodi cynnydd meysydd allweddol i'w gwella;
- nad oes proses hunanarfarnu gadarn a pharhaus gan y Cyngor ar waith ar gyfer ei wasanaethau addysg;
- nad yw'r Cyngor wedi ymateb yn ddigon da i'r argymhellion o arolygiadau blaenorol, gan gynnwys y rhai yn mynd yn ôl i 2004; ac
- nid oes systemau effeithiol gan y Cyngor i farnu a yw mentrau a gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc nac yn cynnig gwerth da am arian.

Fodd bynnag:

- Mae gweledigaeth lefel uchel yn dod i'r amlwg o fewn yr awdurdod, a gefnogir gan ymrwymiad uwch arweinwyr, penaethiaid ysgolion a llywodraethwyr, i fynd i'r afael â'r heriau.

14 Disgwylir i'r Cyngor ymateb drwy gynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion canlynol:

- sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, a dadansoddi a defnyddio data perfformiad i nodi a mynd i'r afael â thanberfformiad;
- cryfhau lefel yr her i ysgolion, a defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio;
- llunio a chymhwyso strategaethau gwell i leihau nifer y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac adeiladu ar strategaethau presennol i leihau'r nifer sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol a gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion cynradd;

- datblygu fframwaith hunanarfarnu cadarn ar gyfer gwaith gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol, a chyflwyno targedau perfformiad priodol a heriol sy'n ysgogi gwelliant;

- datblygu fframwaith craffu mwy trylwyr, a'i ategu gan ddadansoddi data, i herio'r gwasanaethau addysg;

- sicrhau bod data ar anghenion a chyrhaeddiad pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol, a grwpiau sy'n agored i niwed, yn cael ei ddefnyddio ar lefel strategol er mwyn nodi materion a thueddiadau penodol sy'n llywio cynllunio gwasanaethau;

- arfarnu effaith y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid er mwyn addasu'r ddarpariaeth ac ail-gydbwyso dyrannu adnoddau lle bo angen; a

- datblygu a gweithredu systemau i farnu a yw mentrau a gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ac yn cynnig gwerth da am arian.

15 Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar 26 Chwefror 2013 y bydd yn tynnu cyfrifoldeb y Cyngor dros addysg oddi arno, gan ddweud: 'Mae'r awdurdod lleol wedi methu ag ymateb i argymhellion Estyn ers wyth mlynedd. Ceir gwendidau systemig yn yr awdurdod ac felly nid oes gennyf unrhyw ffydd y bydd Merthyr yn datrys y problemau hyn eu hunain, hyd yn oed gyda chymorth.'

16 Mae'r Gweinidog yn bwriadu sefydlu bwrdd adfer i oruchwylio'r adferiad ym maes addysg ym Merthyr Tudful ac mae'r Cyngor yn cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog a'i swyddogion i gytuno ar y model mwyaf priodol i wireddu'r newidiadau sydd eu hangen. Byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau'n ofalus.

## Mae'r Cyngor yn cydweithredu'n dda gyda chynghorau a phartneriaid eraill wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion a phlant, ac mae'n llwyddiannus o ran cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed i fyw gartref

17 Mae gan y Cyngor draddodiad o bartneriaeth agos â'i gyngor cyfagos, Rhondda Cynon Taf, ac â'r bwrdd iechyd lleol, Cwm Taf. Wrth iddo gynllunio a datblygu Parc Iechyd a Gofal Cymdeithasol Merthyr Tudful, daeth cyfle i ddwyn ynghyd y sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol mewn un lleoliad er mwyn helpu i wella mynediad i wasanaethau. Dechreuodd y gwasanaeth hwn weithredu o Barc Iechyd Kier Hardie ym mis Chwefror 2013.

18 Mae'r Cyngor yn awyddus i foderneiddio'i brosesau, a bydd gofyn cael ymrwymiad parhaus i waith partneriaeth cryf er mwyn sicrhau newid sylweddol ac angenrheidiol. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i ad-drefnu ei strwythurau a'i dimau rheoli mewnol i ddarparu gwasanaethau'r rheng flaen, mewn gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant.

19 Ym maes gwasanaethau i oedolion, mae'r Cyngor wedi cydweithredu â chynghorau eraill i ddarparu gwasanaethau. Mae'n sylweddoli beth yw hyd a lled ei allu ac yntau'n gyngor cymharol fach ac mae'n agored i ddatblygu perthynas â chyrff y tu hwnt i'r cynghorau sy'n cydffinio ag ef os gall hyn ei helpu i ddarparu gwasanaethau'n well. Un enghraifft o hyn yw'r ffordd y mae'n cymryd rhan yn y prosiect *Rhannu Bywydau* gyda phum awdurdod cyfagos arall. Mae ganddo drefniadau ar y cyd hefyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer cyllid cleientiaid.

20 Drwy ad-drefnu'r tîm rheoli plant, cryfhawyd y cysylltiadau rhwng asesu'n gynnar, ymyrraeth a'r broses benderfynu. Fel sy'n wir am wasanaethau i oedolion, mae'r Cyngor wedi elwa yn sgil ei drefniadau partneriaeth ag awdurdod cyfagos. Mae hyn wedi golygu bod y Cyngor wedi cael cais i weithio gyda chynghorau eraill i ddatblygu'r gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd ledled Cymru.

21 Cyhoeddodd AGGCC *Adroddiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011-12* ym mis Hydref 2012, gan nodi'r peryglon posibl a'r arferion da canlynol:

- Risgiau:
  - moderneiddio'r gwasanaethau oedolion; a
  - chyflawni cydbwysedd o ddarpariaeth gofal mewnol ac annibynnol sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy.
- Arferion da a nodwyd:
  - gwaith partner, gyda'i gyngor cyfagos, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a chydag eraill yng nghonsortiwm rhanbarthol y De Ddwyrain;
  - diogelu plant a sefydlu bwrdd ar y cyd â phartneriaid iechyd a'r heddlu; ac
  - ymgyrchoedd lleol arloesol drwy ddefnyddio radio lleol i recriwtio gofalwyr maeth/mabwysiadu newydd.

22 Adolygwyd adroddiad Cyfarwyddwr y Cyngor gan AGGCC hefyd, gan gadarnhau ei fod yn rhoi cyfrif cynhwysfawr o berfformiad y Cyngor a'i fod yn adlewyrchu'r dystiolaeth a roddwyd i AGGCC. Yn benodol, mae'n sôn am lwyddiant y Cyngor wrth help pobl i aros yn eu cartref eu hunain. Dengys ffigurau cymharol fod perfformiad y Cyngor yn well o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cadarnhaodd AGGCC fod y dystiolaeth a roddwyd gan y Cyngor i ategu ei werthusiad yn glir.

## Mae'r Cyngor wedi gwella canran y gwastraff a ailgylchir ac a anfonir i safleoedd tirlenwi ond bydd yn anodd iddo gyflawni targedau cenedlaethol a gall wynebu cosbau ariannol sylweddol oni wnaiff hynny

23 Roedd a wnelo un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor yn 2011-12 ag ailgylchu a rheoli gwastraff, ac, yn benodol, â lleihau effaith gwastraff ym Merthyr Tudful drwy sicrhau bod y cyfleusterau cywir ar gael i'w gasglu a'i drin a thrwy ailgylchu mwy ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi. Mae Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ill dau wedi gosod targedau heriol ar gyfer rheoli gwastraff sy'n mynd yn fwyfwy anodd. Gall y gosb ariannol fod yn sylweddol oni chyflawnir y targedau hyn.

24 Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at weithredu canlyniadau strategaeth gwastraff y Llywodraeth, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*. Ceisiodd y Cyngor wneud hyn yn bennaf drwy gaffael cyfleuster treulio anaerobig a chyfleuster gwastraff gweddilliol ar y cyd â chynghorau eraill yng Nghymru.

25 Mae cynnydd wedi'i wneud o ran caffael cyfleuster treulio anaerobig ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Dinas Casnewydd. Mae'r contract wedi'i ddyfarnu bellach a bydd y cyfleuster yn weithredol ym mis Ebrill 2014. Fodd bynnag, bu oedi wrth gaffael y cyfleuster gwastraff gweddilliol oherwydd mai dim ond un cais a gafwyd ar gyfer y tendr a bu'n rhaid ailddechrau'r broses gaffael. Yn sgil hynny, bu'n rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i ateb dros dro ac mae wedi gwneud trefniadau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i waredu gwastraff ar ei ran o 1 Ebrill 2013 ymlaen. Rhagwelir mai dyma fydd y drefn am ddwy flynedd tra bydd y broses gaffael yn mynd rhagddo.

26 O blith yr 11 targed a bennwyd gan y Cyngor i fesur cynnydd ar sail y flaenoriaeth gorfforaethol hon sydd yng *Nghynllun Corfforaethol 2011-2014*, cyflawnwyd 10 a methwyd un o lai na phump y cant. Drwy gyflwyno casgliadau bob pythefnos, gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth a rhoi polisi gorfodaeth ar waith, mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau canran y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi dros y tair blynedd diwethaf o ychydig dros 64 y cant yn 2009-10 i ychydig o dan 55 y cant yn 2011-12. Cydymffurfiodd y Cyngor â lwfans tirlenwi'r UE ar gyfer 2010-11 a 2011-12, ac mae'n gweithio tuag at darged 2012-13. Er bod y gwelliant hwn yn beth cadarnhaol, Cyngor Merthyr yw'r cyngor sy'n perfformio waethaf yng Nghymru o ran y mesur hwn.

27 Llwyddodd y Cyngor i wella'i berfformiad hefyd o ran canran y gwastraff a ailgylchir, gan sicrhau cynnydd o 25 y cant yn 2010-11 i ychydig dros 42 y cant yn 2011-12. Fodd bynnag, unwaith eto, mae perfformiad y Cyngor yn is na chyfartaledd Cymru ac yn hyn o beth, mae yn y 19eg safle o blith 22 o awdurdodau lleol Cymru.

28 Mae 2012-13 yn flwyddyn hollbwysig gan fod y Cyngor o dan bwysau i gyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru, sef 52 y cant. Mae'r Cyngor wedi datblygu nifer o gynlluniau gan gynnwys prosiect *Diwastraff 3G* a lansiwyd ym mis Tachwedd 2012 i dargedu ardaloedd lle ceir cyfraddau ailgylchu isel. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, bydd yn her i'r Cyngor gyrraedd y targed 52 y cant ac fe all wynebu cosb ariannol sylweddol oni wnaiff hynny.

## Mae'r cynnydd o ran adfywio canol trefi'r Cyngor wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac nid yw'r canlyniadau a fwriadwyd wedi'u gwireddu eto

29 Mae gan y Cyngor ddau brosiect cyfalaf mawr ar y gweill gyda'r nod o gryfhau safle'r fwrdeistref sirol yn ganolfan ranbarthol i Flaenau'r Cymoedd: adfywio canol tref Merthyr Tudful ac adfywio Taf Bargoed. Un o elfennau allweddol y prosiectau adfywio hyn yw'r *Cynllun Gwella Adeiladau* a'i nod yw sicrhau bod adeiladau gwag a segur yn cael eu defnyddio unwaith eto. Mae'r Cyngor wedi sicrhau arian grant gwerth £24 miliwn i wireddu rhaglen adfywio Merthyr Tudful dros y tair blynedd nesaf.

30 Mae'r *Cynllun Gwella Adeiladau* wedi mynd rhagddo'n arafach na'r disgwyl oherwydd bod prif landlord canol tref Merthyr Tudful wedi mynd i law'r derbynnydd yn 2012. Rhoddwyd yr eiddo ar ocsiwn fesul un ac mae rhai wedi'u gwerthu. Fodd bynnag, mae nifer o'r eiddo allweddol y rhagwelwyd y byddent yn rhan o'r cynllun heb eu gwerthu o hyd.

31 Mae'r cynnydd gyda rhaglen adfywio Taf Bargoed wedi bod yn fwy cadarnhaol, gan ganolbwyntio ar wella'r cyfleusterau a'r mynediad ym Mharc Taf Bargoed, er bod oedi wedi bod o ran gwella canol tref Treharris a'r cynllun gwella traffig yn Nhrelewis. Bwriedir cwblhau'r gwaith hwn yn 2013.

32 Mae'r Cyngor yn dal i weithio gyda Phrifysgol Morgannwg i ddatblygu'r coleg sydd wrthi'n cael ei adeiladu ym Merthyr Tudful ac a ddylai agor ei ddrysau ym mis Medi 2013.

33 Gosododd y Cyngor bum targed perfformiad yn y maes hwn, ond dim ond dau ohonynt a wireddwyd. O'u cymharu â'r targedau a osodwyd ar gyfer rhaglenni adfywio canol tref Merthyr Tudful a Thaf Bargoed, roedd nifer yr adeiladau a adnewyddwyd ymhell o gyrraedd y nod a gwelwyd dirywiad yn y perfformiad o gymharu â 2010-11. Crëwyd llai o swyddi na'r nifer a dargedwyd yn sgil y rhaglen adfywio hefyd oherwydd y problemau a oedd yn gysylltiedig â'r *Cynllun Gwella Adeiladau*. Yn groes i hynny, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer yr ymwelwyr a gofnodwyd ym Merthyr Tudful, o 35,000 yn 2011 i ychydig o dan 5.5 miliwn yn 2012. Dywedodd y Cyngor wrthym mai'r rheswm dros y gwahaniaeth hwn oedd eu bod wedi defnyddio lleoliadau ychwanegol i fesur niferoedd, ond, yn ein barn ni, mae'n codi amheuon ynghylch pa mor ddibynadwy yw'r dull mesur.

34 Yn gyffredinol, nid yw'r dulliau mesur a ddefnyddir i bennu sut mae perfformiad yn cymharu â'r flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer adfywio ffisegol yn canolbwyntio rhyw lawer ar ganlyniadau. Nid ydynt yn mesur yr effaith a gaiff y camau a gymerir gan y Cyngor ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'r boblogaeth leol. Cynhaliwyd arolygon er mwyn cael barn y cyhoedd am y gwaith sydd ar y gweill a chyflwynwyd y canlyniadau i'r cabinet, ond nid yw'r wybodaeth fwy ansoddol hon yn cael ei hadlewyrchu yn Adroddiad Perfformiad y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi penodi ymgynghorwyr i gasglu'r wybodaeth berthnasol er mwyn helpu'r Cyngor i ddatblygu dulliau gwell o fesur canlyniadau.

## Mae mwy o bobl yn ymwneud â phrosiectau diweithdra ac yn meithrin y sgiliau ac yn ennill y cymwysterau angenrheidiol ond ychydig iawn o ostyngiad a welwyd o ran lefel diweithdra ac mae'n dal yn uwch o dipyn na'r cyfartaledd

35 Yn hanesyddol, mae cyfraddau diweithdra uchel ym Merthyr Tudful ac felly, mae'n briodol mai un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2011-12 oedd gwella sgiliau trigolion lleol i'w helpu i fanteisio ar gyfleoedd gwaith a'u gwneud yn haws eu cyflogi.

36 Daeth llifau arian llawer o raglenni diweithdra cenedlaethol, gan gynnwys *Jobmatch*, *Bridges into Work* a *Chronfa Swyddi'r Dyfodol* i ben yn 2011-12. Serch hynny, penderfynodd y Cyngor fuddsoddi yn y prosiect *Bridges into Work* er mwyn iddo allu parhau. Mae'n parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol hefyd, ac yn ymwneud â rhaglenni a chynlluniau eraill megis model *Cronfa Swyddi'r Dyfodol* a'r rhaglen *Venture Out*.

37 Nod y prosiect *Access to Employment* yw gwella sgiliau er mwyn gwella cyfleoedd cyflogaeth ac mae'n targedu'r trigolion hynny yn y fwrdeistref sirol sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur. Buddsoddiad gwerth £1.782 miliwn yw hwn sy'n cynnwys £1.482 miliwn o arian grant o Ewrop a chan Lywodraeth Cymru a £300,000 gan y Cyngor.

38 Er bod mwy o bobl ifanc yn meithrin y sgiliau ac yn ennill y cymwysterau angenrheidiol, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n llwyddo i gael gwaith. Mae hyn yn parhau i fod yn her yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gynyddu nifer y bobl sy'n ymwneud â phrosiectau diweithdra o 3,724 yn 2010-11 i 4,113 yn 2011-12. Serch hynny, gwelwyd gostyngiad yn nifer y bobl a gynorthwywyd i gael gwaith yn 2011-12 o 1,348 yn 2010-11 i 563 yn 2011-12. Cyfradd diweithdra Merthyr Tudful ym mis Medi 2012 oedd 13 y cant sydd ond fymryn yn well na'r gyfradd yn y flwyddyn flaenorol ac mae'n cymharu'n anffafriol â chyfartaledd Cymru (8.4 y cant) a'r Deyrnas Unedig (7.9 y cant) o ran y mesur allweddol hwn.

## Dylai'r prosesau sydd ar waith i weinyddu budd-dal tai sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon i'r bobl gywir, a bod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn ymatebol. Fodd bynnag, mae sicrhau cywirdeb yn parhau i fod yn her.

39 Mae'r amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu hawliadau newydd am fudd-dal tai wedi gwella ac mae'n cyfateb erbyn hyn i gyfartaledd Cymru. Ar gyfartaledd, llwyddir i brosesu gwybodaeth am newid mewn amgylchiadau yn gyflymach nag a wneir ar gyfartaledd yng Nghymru. Mae canran yr hawliadau newydd y penderfynir arnynt o fewn 14 diwrnod wedi gwella ac mae'r gwasanaeth wedi gostwng canran yr hawliadau newydd sy'n aros mwy na 50 niwrnod am benderfyniad.

40 Canfuwyd ac adenillwyd canran uwch o ordaliadau nag yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae canran yr hawliadau a gyfrifwyd yn gywir yn is na chyfartaledd Cymru a byddwn yn monitro hyn yn y flwyddyn sydd i ddod.

41 Derbyniwyd nifer fwy o geisiadau i'w hailystyried neu i'w hadolygu nag yn y flwyddyn flaenorol, ond ymdrinnir â'r rhain yn gymharol gyflym.

42 Cafwyd llai o apeliadau nag mewn blynyddoedd blaenorol ac ymdrinnir â'r rhain hefyd yn gyflymach nag a wneir ar gyfartaledd yng Nghymru.

43 Mae lefelau'r achosion o dwyll a atgyfeirir wedi gostwng ychydig, mae nifer yr ymchwiliadau i dwyll wedi cynyddu a nifer y cosbau llwyddiannus wedi aros yr un fath.

# Mae diffyg hunanwerthuso trwyadl yn llesteirio gwella gwasanaethau sy'n golygu na all y Cyngor roi darlun cydlynol i'w ddinasyddion o'i berfformiad

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gyflwyno adroddiadau gwella o dan y Mesur. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn fanylach.

44 Drwy gyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad 2011-12 erbyn y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2012, mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Mesur, o dan adran 15 (7).

45 Mae'r adroddiad yn disgrifio perfformiad y Cyngor yn erbyn yr holl ddangosyddion statudol, ac yn cynnwys ffigurau am berfformiad yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol. Cynhwysir perfformiad ar sail targedau a chymhariaeth â chyfartaledd Cymru hefyd. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi crynodeb o'i Adroddiad Perfformiad. Mae'r fersiwn lawn a'r crynodeb ar gael ar wefan y Cyngor ac mae copïau papur ar gael yn ei brif adeiladau cyhoeddus, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg.

46 Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r cynnydd yn erbyn camau allweddol a dulliau mesur meintiol fel y brif dystiolaeth i gloriannu ei berfformiad. Mae lle i gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol a fyddai'n darparu tystiolaeth fwy cyflawn er mwyn iddo allu asesu ei berfformiad. At hynny, yn gyffredinol, nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys datganiadau sy'n gwerthuso cynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau gwella a'r effaith a gaiff y camau a gymerwyd ganddo ar ddinasyddion. Gadewir i'r darllenydd lunio'i farn ei hun ynghylch a yw'r amcan gwella'n cael ei gyflawni ai peidio.

## Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor a'r Crynodeb i'r Cyhoedd yn asesu perfformiad mewn ffordd deg a chytbwys. Nid yw pwyntiau pwysig, yn enwedig yn y meysydd lle mae'r perfformiad yn wael, yn cael eu cyfleu'n glir bob tro o dan bob amcan gwella.

47 Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth am yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud i gyflawni blaenoriaethau gwella corfforaethol 2011-12. Mae'n nodi canran y tasgau a gwblhawyd a'r targedau a wireddwyd dros y ddwy flynedd diwethaf. Amlyga hefyd ei berfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol gan gynnwys y rhai lle mae ei berfformiad wedi gwella, wedi'i gynnal neu wedi dirywio. Mae'r wybodaeth ynghylch yr olaf wedi'i chynnwys yn y Crynodeb Cyhoeddus hefyd. Mae cyflwyniad yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr hefyd yn rhestru nifer o lwyddiannau'r Cyngor yn ogystal â nodi meysydd lle na chyrhaeddwyd targedau.

48 Fodd bynnag, nid yw'r prif naratif bob tro'n gytbwys ac ni ddadansoddir y wybodaeth a roddir. Mae gwybodaeth y mae ei hangen er mwyn gallu llunio barn gyffredinol ynghylch cynnydd y Cyngor naill ai ar goll neu wedi'i gwasgaru drwy'r Adroddiad Perfformiad ac nid yw wedi'i dwyn ynghyd i greu gwerthusiad cydlynol. O dan y flaenoriaeth gwastraff ac ailgylchu, er enghraifft, mae'r Cyngor wedi bod yn eithaf di-flewyn-ar-dafod ynghylch yr oedi a fu wrth gaffael ateb tymor hir cynaliadwy ar gyfer trin gwastraff ac mae'n tynnu sylw'n glir at y ffaith, er y bu gwelliant o ran ailgylchu mwy o wastraff a chludo llai ohono i safleoedd tirlenwi, bod ei berfformiad yn dal yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn groes i hynny, nid yw'n

esbonio yma bod ei berfformiad yn golygu ei fod yn 19eg safle o blith 22 o awdurdodau lleol Cymru yn y cyswllt hwn. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys mewn atodiad i'r adroddiad. Pwynt pwysicach yw nad yw'r adroddiad yn dweud bod y Cyngor yn annhebygol o gyflawni targedau ailgylchu a gwastraff Llywodraeth Cymru ac nid yw'n tynnu sylw at oblygiadau ariannol sylweddol posibl methu yn hynny o beth.

49 Yn yr un modd, mae'r naratif ynghylch y flaenoriaeth adfywio economaidd yn sôn am y gwahanol gynlluniau sydd ar y gweill, ond nid yw'n dweud bod targedau allweddol ar gyfer creu swyddi a mentrau heb eu cyrraedd. Yn wir, mae'r perfformiad yng nghyswllt y cyntaf wedi dirywio ers y llynedd, ond nid yw hyn yn cael ei gyfleu'n glir i'r darllenydd.

50 Noda'r adroddiad fod pob tasg ym maes addysg wedi'i chwblhau a bod 12 o blith 15 targed wedi'u cyflawni, ond nid yw'n dweud bod y Cyngor yn dal i fod yn y 21ain safle o blith 22 o gynghorau Cymru o ran rhai o'r dangosyddion cyrhaeddiad addysgol allweddol. Mae'r adroddiad yn gywir wrth dynnu sylw at y ffaith bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn gwella ond ni roddir y cyd-destun i'r wybodaeth hon, sef mai yn ardal y Cyngor y gwelir y presenoldeb gwaethaf mewn ysgolion cynradd yng Nghymru o hyd.

51 Yn gyffredinol, mae'r Adroddiad Perfformiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y llwyddiannau a gafwyd o dan bob un o'r blaenoriaethau gwella corfforaethol. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth gyson ynghylch y meysydd hynny lle mae'r perfformiad wedi dirywio, neu lle mae angen camau pellach. Mae'r adroddiad yn dewis a dethol wrth ddarparu gwybodaeth gymharol ac mae hyn yn rhwystro'r darllenydd rhag gallu cael darlun llawnach o berfformiad.

## Nid yw trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor yn ddigon trwyadl i ategu gwelliannau parhaus nac i roi darlun cydlynol i'r dinasyddion o'i berfformiad wrth iddo gyflawni ei flaenoriaethau gwella corfforaethol.

52 Dyma'r ail flwyddyn y bu'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Perfformiad am y cyfnod a aeth heibio. Yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* ym mis Ionawr 2012, pwysleisiwyd gennym fod angen i gynghorau fod yn fwy hunanfeirniadol ynghylch y ffordd y byddant yn darparu eu gwasanaethau a'u gwerthuso'n well, a bod angen iddynt ganolbwyntio'n llawer cliriach ar y canlyniadau y bwriedir eu cyflawni ac effaith gwasanaethau ar ddinasyddion.

53 Rydym yn sylweddoli bod y Cyngor ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar ddatblygu ei gynllun corfforaethol ar gyfer 2013-2017 ac ar fireinio'i drefniadau i ategu hyn. Wedi dweud hynny, nid yw Adroddiad Perfformiad 2011-12 yn rhoi asesiad dibynadwy i'w ddinasyddion o berfformiad y Cyngor wrth iddo wireddu ei flaenoriaethau gwella corfforaethol ac nid yw ychwaith yn gwerthuso'r perfformiad hwnnw.

54 Rydym wedi ystyried barn rheoleiddwyr eraill ynghylch dibynadwyedd trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor ac mae'r rhain yn dangos anghysondeb sylweddol yn arferion y Cyngor.

55 Dywedodd AGGCC yn *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011-12*: 'Mae adroddiad y Cyfarwyddwr yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o berfformiad y Cyngor, ac mae'n adlewyrchu'r dystiolaeth a ddarparwyd i AGGCC' ac ' Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cyngor i gefnogi ei werthusiad wedi bod yn eglur a chynhwysfawr'.

56 Fodd bynnag, canfu Estyn 'nad oes proses hunanarfarnu gadarn a pharhaus gan yr awdurdod lleol ar waith ar gyfer ei wasanaethau addysg. Mae wedi dibynnu gormod ar arfarniadau a her gan reoleiddwyr, arolygwyr ac ymgynghorwyr i ddweud wrthynt pa mor dda y maent yn gwneud. O ganlyniad, nid yw'n adnabod ei hun yn ddigon da.

57 Cyflwynodd y Cyngor adroddiad hunanarfarnu cyn yr arolygiad[1]. Mae'r adroddiad hwn yn rhy ddisgrifiadol, ac nid oes digon o arfarnu tystiolaeth uniongyrchol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio gormod ar agweddau 'newyddion da', ac o ganlyniad nid yw'n mynd ati'n ddigonol i werthuso'r heriau pwysicaf sy'n wynebu'r Cyngor. Er y cynhwysswyd ystod o randdeiliaid wrth ddatblygu'r hunanarfarniad, ni roddwyd digon o gyfle i aelodau etholedig allweddol ddylanwadu ar farnau'r adroddiad am ansawdd neu safonau.'

## Mae fframwaith monitro perfformiad clir ar waith a chyflwynir data am berfformiad yn helaeth mewn adroddiadau, ond mae gwendidau o ran ansawdd a gwerthuso'r data'n golygu na all y Cyngor herio perfformiad yn gadarn na phenderfynu beth y mae angen ei wneud yn wahanol er mwyn gwella

58 Mae gan y Cyngor nifer o fecanweithiau i adrodd am berfformiad a'i fonitro. Mae'r rhain yn cynnwys y cabinet, y pwyllgorau craffu, y bwrdd gweithredol a'r byrddau rheoli gwasanaeth. Defnyddir Ffynnon[2] fel prif gyfrwng i hwyluso monitro perfformiad ac mae'r Cyngor wedi datblygu dangosfyrddau penodol yn Ffynnon i fonitro'i flaenoriaethau corfforaethol, ei gytundebau ynghylch canlyniadau, risgiau a chynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau. Y wybodaeth yn Ffynnon a gyflwynir i bwyllgorau craffu bob chwarter a dyma'r sail ar gyfer Adroddiad Perfformiad 2011-12 y Cyngor. Mae amserlen ar gael sy'n nodi pa bryd y caiff perfformiad ar sail y blaenoriaethau corfforaethol a'r cynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau eu monitro gan fforymau a phwyllgorau priodol.

59 Canolbwyntir ar fonitro perfformiad a hynny'n bennaf drwy gymharu'r cynnydd â chamau gweithredu a mesurau yn hytrach na thrwy ystyried yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'r canlyniadau iddynt. Rydym eisoes wedi dweud ein bod yn poeni nad yw'r Cyngor wedi cysoni'r tasgau a'r dulliau o fesurau llwyddiant y bwriedir iddynt ei helpu i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer gwella. Er bod

1 Arolygiad Estyn o ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc: Tachwedd 2012

2 Meddalwedd a brynir yn genedlaethol yw Ffynnon i ddiwallu gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a'u partneriaid.

rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae cryn waith i'w wneud eto cyn i'r Cyngor allu teimlo'n ffyddiog y bydd cyflawni'r gweithgareddau gwella y mae wedi'u cynllunio yn gwella'i wasanaethau ac yn arwain at well canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion.

60 Wrth adolygu sampl o'r wybodaeth am berfformiad a gyflwynir i bwyllgorau craffu, gwelwyd bod diffyg gwybodaeth am dueddiadau a diffyg gwybodaeth gymharol, a bod cryn le i gynnwys rhagor o wybodaeth ansoddol ac ariannol. Byddai cynnwys y wybodaeth hon yn galluogi aelodau o bwyllgorau craffu i werthuso perfformiad y Cyngor yn well wrth iddo ddarparu gwasanaethau a'i herio'n fwy effeithiol.

61 Canfu arolygiad diweddar Estyn: 'Nad yw swyddogion wedi darparu adroddiadau i aelodau sy'n dadansoddi data perfformiad yn ddigon da i nodi cynnydd meysydd allweddol i'w gwella. Nid yw'r broses graffu felly wedi cael gwybodaeth dda am berfformiad addysg ac mae'r her wedi bod yn wan. Fodd bynnag, bu ffocws ar bresenoldeb mewn ysgolion yn y broses graffu, ac mae hyn wedi cyfrannu at welliannau, er mai dim ond yn y sector uwchradd yw hynny.

62 Mae defnyddio Ffynnon at ddibenion rheoli perfformiad yn rhoi strwythur defnyddiol iawn i fesur a monitro cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad a therfynau amser cytûn. Fodd bynnag, nid yw'r broses rheoli perfformiad hon yn cofnodi gwybodaeth bwysig yn ddigonol am effaith gwaith yr awdurdod na'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i ddysgwyr. Felly, nid yw gwasanaethau addysg y gyfarwyddiaeth yn cael eu harfarnu'n ddigon da i helpu aelodau etholedig, gwasanaethau a rheolwyr i ysgogi gwelliant yn effeithiol.'

63 Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu effeithiolrwydd ei drefniadau craffu ac rydym yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau craffu'r Cyngor a'r tîm cymorth ar hyn o bryd sy'n cymryd rhan mewn astudiaeth gwella Cymru gyfan gyda'r nod o hybu a chefnogi gwella effeithiolrwydd trefniadau craffu. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r astudiaeth maes o law.

64 Fodd bynnag, rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â gwendidau yn ansawdd ei ddata am berfformiad a'r ffordd y mae'n eu gwerthuso er mwyn gallu herio perfformiad yn gadarn a phenderfynu beth y mae angen iddo'i wneud yn wahanol er mwyn gwella.

## Cydymffurfiaeth y Cyngor â'i gyfrifoldebau o ran adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

65 Rhoddodd yr archwilydd penodedig ei farn am gyfrifon y Cyngor yn ddiweddar, gan ddweud bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) wedi bod yn feirniadol o'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gweinyddu ei *Gynllun Iaith Gymraeg*, ac mae'r Cyngor yn ymateb i argymhellion y Comisiynydd

66 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

67 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

68 Yn 2012 bu'r Cyngor yn destun ymchwiliad dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i fethiannau mewn perthynas â gweithrediad ei *Gynllun Iaith Gymraeg*. Derbyniodd y Cyngor adroddiad yr ymchwiliad a chytuno i weithredu nifer o argymhellion. Mae'r argymhellion yn ymwneud â rheolaeth a gweinyddiaeth y *Cynllun Iaith Gymraeg*; gwefan corfforaethol; a materion yn ymwneud â sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu. Disgwylir i'r Cyngor fod wedi gweithredu'r holl argymhellion erbyn Ebrill 2013. Yn dilyn hynny, y flaenoriaeth fydd datblygu a gwella'r meysydd hyn ymhellach. Mae'r Cyngor eisoes wedi dangos peth cynnydd tuag at gwrdd â thargedau'r argymhellion, a bydd adolygu cynnydd yn parhau drwy adroddiad monitro blynyddol nesaf y Cyngor.

# Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol i gynllunio ar gyfer gwella ond ni lwyddodd i gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol i gynllunio ar gyfer gwella ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu camau perfformiad sy'n diffinio llwyddiant yn glir, ac i fireinio trefniadau i fonitro a sbarduno gwelliannau

69 Wrth inni asesu amcanion gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol (a elwir yn *Gynllun Corfforaethol 2012-2013*), daethpwyd i'r casgliad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

70 Cyhoeddwyd y cynllun gwella a chrynodeb cyhoeddus annhechnegol yn y Gymraeg a'r Saesneg o fewn yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddau ar gael ar fformat electronig ar wefan y Cyngor a rhodwyd cyhoeddusrwydd iddynt drwy'r wasg leol. Mae copïau caled o'r crynodeb cyhoeddus dwyieithog yn nerbynfeydd swyddfeydd y Cyngor ac maent ar gael drwy wneud cais.

71 Eleni, cynhaliwyd ymarfer cynhwysfawr gan y Cyngor i sefydlu amcanion gwella mwy eglur sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Hwyluswyd y broses hon gan gorff allanol. Ymgysylltwyd â gwasanaethau, uwch reolwyr ac aelodau i ganfod pedwar amcan newydd sy'n flaenoriaeth ar gyfer 2012-13. Bu'r Cyngor hefyd yn ymgynghori'n helaeth â dinasyddion lleol, busnesau a phartneriaid ynghylch ei gynllun cymunedol, gan ymgynghori eto â thrigolion ym mis Ionawr 2012.

72 Dywedwyd gennym fod angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu dulliau mesur perfformiad sy'n diffinio llwyddiant yn glir, ac i fireinio trefniadau i fonitro a sbarduno gwelliannau. Fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod bod cynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau a chynlluniau gweithredol 2012-13 wrthi'n cael eu datblygu, wrth inni adolygu sampl fach o flaenoriaethau gwella corfforaethol yn fwy diweddar, ni welwyd cynnydd sylweddol yn y maes hwn.

73 Roedd adroddiad arolygu diweddar Estyn hefyd yn codi pryder tebyg gan ddweud: 'nid yw…mabwysiadu dull atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau ar lefel gorfforaethol, wedi treiddio i lefel cynllunio gwasanaethau eto mewn addysg, felly ni all ysgogi'r gwelliant angenrheidiol'.

74 Yn gyffredinol, mae'r dulliau a ddefnyddir gan y Cyngor i gasglu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad ac adrodd arnynt yn ddibynadwy, er inni sôn am rai anawsterau yn ymwneud â nifer fach o ddangosyddion lle mae angen gwella'r trefniadau.

## Mae cryn waith i'w wneud i gysoni'r cynllun ariannol tymor canol, y strategaeth rheoli asedau a strategaeth y gweithlu er mwyn iddynt fod yn sail ac yn sylfaen gadarn i'r Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau

75 Mae gan y Cyngor broses sefydledig i ddiweddaru ei gynllun ariannol tymor canol bob blwyddyn ac mae'n cael ei ddiweddaru ar gyfer 2013-14 hyd 2016-17. Mae'r cynllun yn dangos diffyg dangosol o £5.7 miliwn yn y gyllideb refeniw dros y cyfnod o bedair blynedd ac mae'n seiliedig ar drefniant presennol y gwasanaeth.

76 Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau ar waith i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae'n llai amlwg a oes modd iddo osod cyllidebau cytbwys sy'n darparu digon o adnoddau i wireddu amcanion gwella'r Cyngor dros y tymor canol. Nid yw'r Cynllun yn seiliedig ar asesiad cyflawn o wasanaethau yn y dyfodol a'r adnoddau sy'n ofynnol i'w darparu.

77 Ar gyfer cyfnodau y tu hwnt i 2012-13, nid yw'r Cyngor wedi penderfynu eto beth yw ei flaenoriaethau nac wedi gwerthuso'u goblygiadau ariannol. Os defnyddir y cynllun ariannol tymor canol yn arf cynllunio ariannol effeithiol, bydd angen cynnwys canlyniadau'r gwaith hwn a nodi'n glir pa gamau sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi sylw i unrhyw ddiffyg ariannol a nodir.

78 Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau monitro priodol sy'n cynnwys gwerthuso'r gyllideb a'r cynllun ariannol tymor canol a chraffu arnynt ar lefel y bwrdd gweithredol a'r cabinet, ynghyd â'r pwyllgorau craffu. Dylid defnyddio'r trefniadau craffu a monitro hyn i sicrhau gwell cysondeb rhwng y cynllun ariannol tymor canol, y cynllun corfforaethol a chynlluniau strategol eraill, wrth iddynt barhau i gael eu datblygu.

79 Mae'r cynllun ariannol tymor canol diwygiedig ar gyfer 2013-14 hyd 2016-17 wedi'i gysoni'n well â strategaethau eraill. Fodd bynnag, ers blwyddyn, nid oes gan y Cyngor Bennaeth Rheoli Asedau, felly, nid yw rhai o'r agweddau mwy strategol ar reoli asedau wedi'u datblygu mor gyflym ag y byddai'r Cyngor wedi'i ddymuno ac efallai iddo golli cyfle i sicrhau'r arbedion mwyaf posibl. Er enghraifft, mae angen i'r Cyngor ddatblygu cynllun rheoli asedau newydd ar gyfer 2014 a thu hwnt, ac nid oes digon o sbardun wedi bod i sicrhau bod cynlluniau rheoli asedau gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u diweddaru. Mae'r cyn Bennaeth Gwasanaethau Eiddo wedi'i benodi'n ddiweddar yn Bennaeth Eiddo ac Ystadau, a bydd yn ysgwyddo mwy o'r gwaith ar agweddau strategol rheoli asedau yn y rôl hon.

80 Mae elfennau o'r system rheoli asedau corfforaethol newydd wedi'u rhoi ar waith bellach neu cânt eu rhoi ar waith yn fuan. Bydd hyn yn golygu bod y Cyngor yn gallu rheoli ei bortffolio'n well a'i gynnal mewn ffordd fwy strategol.

81 Bu'r tîm Eiddo ac Ystadau, sydd bellach yn un, yn ymwneud â datblygu cynllun ariannol tymor canol y Cyngor, ac mae'r timau Cyllid ac Ystadau'n dal i gydweithio'n glos gyda golwg ar raglen gyfalaf y Cyngor. Mae'r tîm Ystadau wedi datblygu dull i arfarnu prosiectau a gaiff ddyraniad cyfalaf er mwyn helpu'r tîm i asesu hyfywedd a blaenoriaethu prosiectau, megis trosglwyddo asedau cymunedol. Nid yw'r dull hwn wedi'i fabwysiadu'n gorfforaethol eto ac mae'r tîm Cyllid yn dal i ddefnyddio matrics risg gwahanol, gan ymgynghori ag Ystadau, er mwyn penderfynu a gaiff prosiectau eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith ar werthuso opsiynau cyfalaf er mwyn i aelodau allu gwneud penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar wybodaeth gyflawn ynghylch y rhaglen gyfalaf.

82 Cymeradwywyd strategaeth pobl y Cyngor ym mis Ebrill 2012 ac mae'n cael ei diweddaru er mwyn ei chysoni â'r cynllun ariannol tymor canol. Mae cynlluniau datblygu'r gweithlu wedi'u cynnwys yng nghynlluniau strategol pob gwasanaeth ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Defnyddir y cynlluniau gweithlu hyn yn sail ar gyfer diweddaru'r strategaeth pobl. Nid yw'n glir eto, fodd bynnag, sut mae'r cynlluniau gweithlu hyn yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar y cynllun ariannol tymor canol a'r cynllun rheoli asedau.

## Mae'r Cyngor yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ddatblygu dull mwy strategol a chydlynol o ymgysylltu â'r cyhoedd

83 Ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, llwyddodd y Cyngor i sicrhau arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ym mis Gorffennaf 2012 i sefydlu prosiect ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd a fyddai'n golygu bod modd mynd ati mewn ffordd gydlynol drwy bartneriaeth i ymgynghori ar draws byrddau gwasanaethau lleol a rhyngddynt. Yn benodol, byddai'r prosiect yn darparu adnodd i gydlynu hyn ym Merthyr Tudful, canolbwynt ymgynghori ar lein, Strategaeth a Phecyn Ymgynghori ac Ymgysylltu, hyfforddiant priodol i staff a Phanel Dinasyddion.

84 Bydd y canolbwynt ymgynghori, a fydd yn galluogi cynghorau i weld pa ymgynghoriadau sydd ar y gweill ac yn eu helpu i gydlynu ymgyngoriadau yn y dyfodol, ar waith yn fuan ac fe'i defnyddir fel cynllun peilot ar gyfer model Cymru gyfan gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Nid oes gan y Cyngor strategaeth ymgysylltu o hyd, ond, er mwyn datblygu un cynllun cyfannol, mae angen cael dull cynhwysfawr o ymgysylltu a'r bwriad yw adeiladu ar sail hyn. Ystyrir yr opsiwn hefyd i ddatblygu strategaeth ymgysylltu ar y cyd â Rhondda Cynon Taf. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i sefydlu Panel Dinasyddion ar y cyd a defnyddir rhan o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop i benodi ymgynghorwyr i helpu gyda hyn. Mae cynllun gweithredu ar waith sy'n nodi prif weithgareddau a cherrig milltir y

prosiect a darperir adroddiadau cynnydd rheolaidd i Lywodraeth Cymru ac i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Sefydlwyd Grŵp Llywio ar y cyd hefyd rhwng Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf er mwyn monitro a bwydo gwybodaeth i'r rhaglen.

85 Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook yn frwd, a lansiodd y Cyngor *Mwstwr Merthyr* ym mis Mehefin 2012, sef gwefan wybodaeth sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc 11-25 oed. Enwebwyd y Cyngor am wobr genedlaethol CLIC am y wefan hon.

## Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus

86 Mae llawer o'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella'n ymwneud â phrosesau cynllunio corfforaethol a hunanasesu'r Cyngor, ac mae'r dystiolaeth o'n gwaith eleni a gwaith Estyn yn dangos nad yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol o ran gwella'i drefniadau rheoli perfformiad.

87 Mae rhai meysydd lle y cafwyd adroddiadau cadarnhaol am berfformiad a lle mae rheoleiddwyr allanol wedi rhoi sylwadau ffafriol am hunanasesu'r Cyngor. Yr enghraifft fwyaf nodedig o hynny yw adroddiad AGGCC. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor i bob golwg yn gallu dysgu yn sgil y meysydd hynny lle y gwelir arferion da, ac mae'r diffyg hunanwerthuso cadarn ar berfformiad corfforaethol a gwasanaethau'n ein harwain i gasglu bod trefniadau'r Cyngor yn rhy aneffeithiol i sicrhau gwelliannau parhaus. O ran gwasanaethau addysg, mae aneffeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi arwain at ganlyniadau difrifol i'r Cyngor ac i ddinasyddion Merthyr Tudful.

88 Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol i gynllunio ar gyfer gwella ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu camau perfformiad sy'n diffinio llwyddiant yn glir, ac i fireinio trefniadau i fonitro a sbarduno gwelliannau;
- mae cryn waith i'w wneud i gysoni'r cynllun ariannol tymor canol, y strategaeth rheoli asedau a strategaeth y gweithlu er mwyn iddynt fod yn sail ac yn sylfaen gadarn i'r Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau;
- mae fframwaith monitro perfformiad clir ar waith ac mae llawer o ddata am berfformiad yn cael eu cyflwyno mewn adroddiadau, ond mae gwendidau o ran ansawdd a gwerthuso'r data'n golygu na all y Cyngor herio perfformiad yn gadarn na phenderfynu beth y mae angen ei wneud yn wahanol er mwyn gwella; ac
- nid yw trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor yn ddigon trwyadl i ategu gwelliannau parhaus nac i roi darlun cydlynol i'r dinasyddion o'i berfformiad wrth iddo gyflawni ei flaenoriaethau gwella corfforaethol.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r *Adroddiad Gwella Blynyddol* hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Ferthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £111 miliwn y flwyddyn (2011-12). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,025 fesul trigolyn. Yn 2011-12, gwariodd y Cyngor £13 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Merthyr Tudful oedd £1,342.04 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.5 y cant i £1,376.09 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 93 y cant o dai Ceredigion yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 33 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r fwrdeistref sirol ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn :

- 7 o'r Grŵp Annibynnol
- 1 Annibynnol Merthyr
- 24 Llafur
- 1 o Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

Prif Weithredwr y Cyngor yw Gareth Chapman.

- Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymunedol: Gio Isingrini
- Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cwsmeriaid: Gary Thomas

## Gwybodaeth arall

Aelod y Cynulliad dros Ferthyr Tudful a Rhymni yw Huw Lewis (Llafur).

Aelodau'r Cynulliad dros Ranbarth Dwyrain De Cymru yw:

- Mohammad Asghar, Plaid Geidwadol Cymru
- Jocelyn Davies, Plaid Cymru
- William Graham, Plaid Geidwadol Cymru
- Lindsay Whittle, Plaid Cymru

Aelod Seneddol Merthyr Tudful a Rhymni yw Dai Havard (Llafur).

I gael gwybod rhagor, gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.merthyr.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Gareth Chapman
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Annwyl Mr Chapman

## Y Llythyr Cyfrifon Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi yn sgil fy nghyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a minnau wedi fy Mhenodi'n Archwilydd ac o dan fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cywir o gyfrifon;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC. Mae'r Cod hwn wedi'i seilio ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Medi 2012, cyhoeddais farn archwilio ddiamod am y Datganiad Cyfrifon yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno golwg deg a chywir ar sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd adroddiad ar y prif faterion a oedd yn codi yn sgil archwilio'r cyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar Archwilio'r Datganiadau Ariannol ar 24 Medi 2012.

Cynhaliwyd ymarfer gan Dîm Ystadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y gweithredoedd eiddo a ddelid yn cyfateb yn briodol â'r asedau a restrwyd ar y gofrestr asedau, cyn rhoi system rheoli asedau newydd ar waith yn 2012/13. Yn ystod yr ymarfer hwn, canfuwyd bod dros ddau gant o barseli o dir a oedd wedi'u cofrestru yn eiddo i'r Cyngor nad oeddent wedi'u cofnodi ar y gofrestr asedau, ac felly nad oedd eu gwerth wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol drafft. Yn sgil gwaith y tîm Ystadau, prisiwyd asedau tir a oedd yn werth cyfanswm o £587,000 a'u cynnwys yn y datganiadau ariannol terfynol.

Mae'r rheolwyr wedi dweud y bydd y Cyngor yn symud at raglen dreigl 5 mlynedd o brisio ffurfiol o 2012/13 ymlaen gan ddechrau drwy brisio'n llawn yr holl dir a'r adeiladau ar 31 Mawrth 2013. Bydd hyn yn cyd-fynd â rhoi'r system rheoli asedau newydd ar waith.

Am y tro cyntaf eleni, paratowyd y datganiadau ariannol ar sail grŵp er mwyn cynnwys cyfran y Cyngor o asedau, dyledion, incwm a gwariant gyda golwg ar y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion a Chydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed. Mae'r cyfrifon yn dangos symiau ar gyfer y Cyngor fel endid unigol ac ar gyfer y grŵp yn ei grynswth.

Seiliwyd fy ystyriaeth ynghylch trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwasanaeth darbodus, effeithlon ac effeithiol ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon, yn ogystal â thrwy ddibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn gyffredinol, rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw'r trefniadau hyn wedi dangos eu bod yn effeithiol eto neu lle y gellid gwella pethau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Hoffwn dynnu sylw at y meysydd penodol canlynol yn y llythyr hwn:

- Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer y Cyngor yn heriol iawn o hyd ac mae trefniadau cynllunio a monitro ariannol ar waith i weld ymhle mae'r bwlch ariannu ac i hwyluso'r arbedion sy'n ofynnol. Mae'r Cyngor yn dal i weithio i weld ymhle y gall wneud rhagor o arbedion.

- Ardystiwyd 33 hawliad am grant gan PwC ar gyfer 2010/11. O blith y rheini, ardystiwyd 20 yn ddiamod heb eu diwygio, ardystiwyd chwech yn ddiamod gyda rhywfaint o ddiwygio i'r ffigurau terfynol, roedd gofyn pennu amodau ar gyfer un ond heb ei ddiwygio a phennwyd amodau ar gyfer y chwech arall gan ddiwygio'r ffigurau terfynol rywfaint.

- Rydym yn dal i allu dibynnu ar waith yr adran Archwilio Mewnol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r Datganiad Cyfrifon wedi’i gwblhau ar 22 Hydref 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn fwy na’r ffi a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol oherwydd y gwaith archwilio ychwanegol heb ei gynllunio y bu’n rhaid ei wneud ar brisio asedau tir ac eiddo a nodwyd gan y Cyngor tua diwedd y broses archwilio.

Yn gywir

**Kevin Williams (PwC LLP)**
**Ar ran yr Archwilydd Penodedig**

28 Tachwedd 2012

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn,

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei *Gynllun Corfforaethol 2012-2013* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.merthyr.gov.uk sef:

| Blaenoriaethau corfforaethol 2011-12 | Canlyniadau sy'n flaenoriaeth 2012-13 |
|---|---|
| Adfywio Cymdeithasol, Economaidd a Ffisegol, gan gynnwys cynorthwyo trigolion i sicrhau gwaith, ac adfywio'r Fwrdeistref Sirol. | Bod pobl Merthyr Tudful yn elwa ar economi gryf, gynaliadwy ac amrywiol. |
| Mae Gofal Cymdeithasol o Ansawdd Da yn golygu bod Pobl yn cael Bywyd o Well Ansawdd, gan gynnwys adeiladu dau gartref preswyl newydd a Chyfleuster Gofal Ychwanegol. | Bod y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful ac yn ymweld â hi, yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn cefnogaeth sydd arnyn nhw ei angen i fyw bywyd iachach ac o well ansawdd. |
| Bod Cyfleoedd Dysgu Gydol Oes o Ansawdd Da, gan gynnwys datblygu Chwarter Dysgu Merthyr. | Bod gan bobl ym Merthyr Tudful y cyfle a'r dyhead i ddysgu a datblygu eu sgiliau er mwyn gwneud y gorau o'u potensial. |
| Diogelwch Cymunedol, gan gynnwys canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Bod pobl yn cael mwynhau amgylchedd bywiog, deniadol a chynaliadwy, i fyw, gweithio a chwarae ynddo ac i ymweld ag o. |
| Seilwaith, gan gynnwys gwella rhwydwaith y priffyrdd. | |
| Gwasanaethau Cyhoeddus Effeithlon, gan gynnwys gwella gwasanaethau i gwsmeriaid a rhesymol swyddfeydd. | |
| Tai o Ansawdd Da, gan gynnwys datblygu tai fforddiadwy. | |
| Ailgylchu a Rheoli Gwastraff, gan gynnwys symud at gasgliadau ailgylchu wythnosol a chasgliadau sbwriel bob pythefnos. | |

## Hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2011-12 ar gael yn Adroddiad Perfformiad y Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.merthyr.gov.uk o dan yr adran 'Cyngor a Democratiaeth'.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk